O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 98

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 98

The Health and Social Care (Wales) Act 2025 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*25 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 98

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Gofal 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ("Deddf 2025").

Mae rheoliad 2 yn diwygio cyfeiriadau y mae Deddf Gofal 2014 yn eu gwneud at ddarpariaethau penodol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd wedi eu diwygio gan Ddeddf 2025. Darpariaethau yw'r rhain sy'n ymwneud â "taliadau uniongyrchol" a wneir tuag at y gost o ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth neu tuag at y gost o ddiwallu angen person am "after-care" o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae rheoliad 3 yn diwygio adran 47(d) o Ddeddf 2016 i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i adran 32 o'r Ddeddf honno gan adran 17(2) o Ddeddf 2025.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

2026 Rhif 98

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 28(1)(a) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025(**1**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 28(3) o'r Ddeddf honno gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

Deddf Gofal 2014

2.—(1) Mae Deddf Gofal 2014(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 49(2)(b)(i) (adran 48: achosion trawsffiniol), yn lle "50 or 52 of" rhodder "49A(1)(a) or (c) of or Schedule A1 to".

(3) Yn adran 51(2)(b)(ii) (dyletswydd dros dro ar ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon), yn lle "50 or 52 of" rhodder "49A(1)(a) or (c) of or Schedule A1 to".

(4) Yn Atodlen 1 (lleoliadau trawsffiniol), ym mharagraff 9(2)(a), yn lle "50 or 52 of" rhodder "49A(1)(a) or (c) of or Schedule A1 to".

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

3. Yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**3**), yn adran 47 (datganiadau anwir), ym mharagraff (d), yn lle "32(1)" rhodder "32(1A) neu (1B)".

(**1**) 2025 dsc 1.
(**2**) 2014 p. 23.
(**3**) 2016 dccc 2.

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
25 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 98

SOCIAL CARE, WALES

The Health and Social Care (Wales) Act 2025 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Care Act 2014 and the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 ("the 2016 Act") in consequence of amendments made by the Health and Social Care (Wales) Act 2025 ("the 2025 Act").

Regulation 2 amends references that the Care Act 2014 makes to certain provisions of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 that are amended by the 2025 Act. These are provisions relating to "direct payments" made towards the cost of meeting a person's needs for care and support or towards the cost of meeting a person's need for "after-care" under section 117 of the Mental Health Act 1983.

Regulation 3 amends section 47(d) of the 2016 Act to reflect amendments made to section 32 of that Act by section 17(2) of the 2025 Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this instrument.

2026 No. 98

SOCIAL CARE, WALES

The Health and Social Care (Wales) Act 2025 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*25 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the power conferred on them by section 28(1)(a) of the Health and Social Care (Wales) Act 2025(**1**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 28(3) of that Act a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health and Social Care (Wales) Act 2025 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2026.

Care Act 2014

2.—(1) The Care Act 2014(**2**) is amended as follows.

(2) In section 49(2)(b)(i) (section 48: cross-border cases), for "50 or 52 of" substitute "49A(1)(a) or (c) of or Schedule A1 to".

(3) In section 51(2)(b)(ii) (temporary duty on Health and Social Care trust in Northern Ireland), for "50 or 52 of" substitute "49A(1)(a) or (c) of or Schedule A1 to".

(4) In Schedule 1 (cross-border placements), in paragraph 9(2)(a), for "50 or 52 of" substitute "49A(1)(a) or (c) of or Schedule A1 to".

Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016

3. In the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**3**), in section 47 (false statements), in paragraph (d), for "32(1)" substitute "32(1A) or (1B)".

(**1**) 2025 asc 1.
(**2**) 2014 c. 23.
(**3**) 2016 anaw 2.

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
25 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839869-4

9 780348 398694